

## CABINET

Cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun a thrwy gynhadledd fideo ddydd Iau, 18 Hydref 2022 am 10.00 am.

### YN BRESENNOL

Cynghorwyr Jason McLellan, Arweinydd ac Aelod Arweiniol Twf Economaidd a Threchu Amddifadedd; Gill German, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Theuluoedd; Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol; Elen Heaton, Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Julie Matthews, Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol; Barry Mellor, Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant; Win Mullen-James, Aelod Arweiniol Datblygu Lleol a Chynllunio; Rhys Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau, ac Emrys Wynne, Aelod Arweiniol y Gymraeg, Diwylliant a Threftadaeth

**Arsylwyr:** Y Cynghorwyr Brian Blakeley, Jeanette Chamberlain-Jones, Ellie Chard, Pauline Edwards, Hugh Irving, Arwel Roberts, Gareth Sandilands a Peter Scott

### HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (GB); Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Cymunedau (NS); Llywodraethu a Busnes/Swyddog Monitro (GW), a'r Amgylchedd a'r Economi (TW); Penaethiaid Gwasanaeth: Cyllid ac Eiddo (SG), Addysg (GD), a Chymunedau a Gwasanaethau i Gwsmeriaid (LG); Rheolwr Adain – Rheoli Rhwydwaith (TT); Ymgynghorydd Amddiffyn yr Arfordir (RD); Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd (JH); Prif Reolwr – Cymorth i Ysgolion (JC); Swyddog Arweiniol – Eiddo Corfforaethol a Stoc Tai (DL); Uwch Bensaer (KA); Rheolwr Gweithrediadau Eiddo (MC); Cydlynnydd Busnes: Swyddfa'r Arweinydd (SE) a Gweinyddwyr Pwyllgorau (KEJ ac SLJ [i we-ddarlledu])

#### 1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

#### 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Gill German a'r Cynghorydd Rhys Thomas gysylltiad personol ag eitem 5 ar y rhaglen – Cynlluniau Amddiffynfeydd Arfordirol Canol y Rhyl a Chanol Prestatyn, o ran Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig (HSDd), oherwydd eu bod yn Gyfarwyddwyr HSDd.

Datganodd y Cynghorydd Rhys Thomas gysylltiad personol ag eitem 7 ar y rhaglen hefyd – Prosiect Ysgol Plas Brondyffryn, oherwydd ei fod yn byw'n agos at yr ysgol.

#### 3 MATERION BRYD

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

#### 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod Cabinet a gynhaliwyd ar 29 Medi 2022.

**PENDERFYNWYD** derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Medi 2022 a'u cadarnhau fel cofnod cywir.

## **5 CYNLLUNIAU AMDDIFFYN YR ARFORDIR CANOL Y RHYL A CHANOL PRESTATYN**

Cyflwynodd y Cynghorydd Barry Mellor yr adroddiad am ddau gynllun amddiffynfeydd arfordirol posibl ar gyfer Canol y Rhyl a Chanol Prestatyn a gofynnodd am gymeradwyaeth y Cabinet i gyflwyno'r prosiect i'r Cyngor gydag argymhelliad i ariannu cam adeiladu'r ddau gynllun. Roedd yr adroddiad yn cynnwys dau atodiad cyfrinachol a oedd yn nodi gwybodaeth ariannol a gofynnwyd i'r Cabinet symud i sesiwn breifat wrth drafod elfennau cyfrinachol y dogfennau.

Roedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: yr Economi a'r Amgylchedd, y Rheolwr Adain – Rheoli Rhwydwaith a'r Ymgynghorydd Amddiffynfeydd Arfordirol yn bresennol ar gyfer yr eitem hon hefyd.

Darparwyd y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad y ddau gynllun er mwyn lleihau perygl llifogydd yn ardaloedd Canol y Rhyl a Chanol Prestatyn. Roedd y Cyngor wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ar ddatblygu'r cynlluniau a byddai achos busnes terfynol yn cael ei gyflwyno cyn hir i gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Cost gyfun y ddau gynllun oedd tua £84 miliwn, a chaiff 85% ei ariannu gan Lywodraeth Cymru fel cymorth grant, sy'n cael ei dalu i'r Cyngor dros gyfnod o 25 mlynedd drwy'r Grant Cynnal Refeniw. Roedd ymgynghori helaeth wedi'i gynnal ar y ddau gynllun ac roedd y Pwyllgor Craffu Cymunedau a'r Bwrdd Cyllideb wedi craffu ar y cynlluniau arfaethedig a chefnogi cyflwyno'r prosiect i'w gymeradwyo. Roedd caniatâd cynllunio wedi'i roi ar gyfer y ddau gynllun ym mis Gorffennaf 2022.

Eglurwyd y rhesymu dros y cynlluniau ymhellach gan gyfeirio at effaith newid hinsawdd, dirywiad amddiffynfeydd presennol rhag llifogydd a dinistr digwyddiadau llifogydd. Amlygwyd llwyddiant Cynllun Amddiffyn Arfordir Dwyrain y Rhyl hefyd a'r gwersi a ddysgwyd o'r prosiect hwnnw. Roedd Cynllun Canol y Rhyl wedi'i ddylunio i leihau risg llifogydd yn sylweddol i tua 600 o eiddo preswyl a masnachol ac roedd Cynllun Canol Prestatyn wedi'i ddylunio i ddiogelu mwy na 2,000 o eiddo preswyl a masnachol; roedd y ddau gynllun yn hanfodol ar gyfer diogelwch a chynaliadwyedd y trefi hynny ar gyfer preswylwyr, busnesau a thwristiaeth.

Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth a ddilynodd –

- Roedd y Cynghorydd Gill German yn awyddus i sicrhau bod pryderon a fynegwyd gan breswylwyr (yn dilyn adroddiadau yn y wasg) a oedd yn byw ger Cynllun Canol Prestatyn wedi cael sylw. Dywedwyd wrthi fod y mwyafrif o'r pryderon hyn wedi bod yn seiliedig ar gamddealltwriaeth o'r cynlluniau. Roedd swyddogion wedi cysylltu â phreswylwyr i roi sicrwydd yn hynny o beth gan egluro bod y cynllun yn bellach o lawer i ffwrdd o ffin eu heiddo nag a adroddwyd yn y wasg, a bod addasiadau pellach wedi'u gwneud i ymestyn y

pellter hwnnw, ac ni fu unrhyw gynlluniau ar gyfer llwybr cerdded/beicio ar ben y bwnd, a fu'n bryder arall.

- Dywedodd yr Arweinydd a'r Cynghorydd Gill German (aelodau'r ward) eu bod wedi bod yn yr ardal yn ddiweddar i siarad â phreswylwyr, ynghyd â thrydydd aelod y ward, y Cynghorydd Kelly Clewett, ac ni chodwyd unrhyw bryderon am Gynllun Canol Prestatyn. Er ei bod wedi bod yn bleser nodi'r ymgysylltu cynhwysfawr a oedd wedi'i gynnal eisoes, pwysleisiodd yr Arweinydd bwysigrwydd ymgysylltiad rhagweithiol parhaus a chyfathrebu ag aelodau a phreswylwyr wrth symud ymlaen, yn enwedig o ystyried yr amhariad anochel a achosir o ganlyniad i'r cam adeiladu. Rhoddwyd sicrwydd y byddai trafodaethau pellach yn cael eu cynnal am fanylion y cynlluniau a'r rhaglen ddarparu, pe bai'r cynlluniau'n cael eu cymeradwyo. Cynigiwyd mesurau ymgysylltu tebyg i'r rhai a gynhaliwyd yn ystod Cynllun Amddiffyn Arfordir Dwyrain y Rhyl, a oedd yn cynnwys newyddlenni rheolaidd a chyfleuster galw heibio.
- Cyfeiriodd y Cynghorydd Rhys Thomas at Gynllun Canol y Rhyl a phryderon o ran yr effaith niweidiol ar weithrediad cyfleusterau Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig (HSDd) fel SC2, ynghyd â gwaith adfywio arall arfaethedig yn yr ardal, a'r angen i leihau'r effaith gymaint ag sy'n bosibl. Cadarnhawyd bod trafodaethau wedi cael eu cynnal ers peth amser gyda HSDd yn ystod datblygiad y prosiectau. Byddai'r effaith ar HSDd a busnesau a phreswylwyr eraill yn cael ei hystyried wrth gynllunio manylion y prosiect, a fyddai'n cael ei ddarparu fesul cam gyda'r bwriad o leihau'r amhariad a achoswyd. Roedd dull cydlynol gyda phrosiectau adfywio eraill yn yr ardal yn cael ei ddilyn hefyd er mwyn lleihau effaith y datblygiadau hynny ymhellach gyda'i gilydd.
- Soniodd y Cynghorydd Hugh Irving am sylwadau a gafwyd gan breswylwyr dros yr wythnosau diwethaf a oedd yn sôn am bryderon am Gynllun Canol Prestatyn, ac roedd wedi'u cyfeirio at aelodau'r ward a'r aelod arweiniol. Dywedodd yr aelodau perthnasol nad oeddent wedi cael sylwadau o'r fath. Ailadroddodd yr Arweinydd bwysigrwydd ymgysylltu â'r gymuned ac fel aelod ward Prestatyn, ynghyd â'r Cynghorwyr Gill German a Kelly Clewett, roeddent yn awyddus i glywed gan breswylwyr ac fe'u hanogodd i gysylltu gydag unrhyw faterion neu bryderon er mwyn rhoi sylw priodol iddynt. Ailadroddodd Swyddogion yr ymgynghoriad helaeth hefyd fel rhan o'r broses gynllunio a darparodd sicrwydd pellach y byddai ymgysylltiad cymunedol yn parhau trwy gydol y broses.
- Soniodd y Cynghorydd Jeanette Chamberlain-Jones am sylwadau roedd wedi'u cael am Gynllun Canol y Rhyl, gan gynnwys yr effaith ar dwristiaeth a chwestiynau am pa bryd cafodd canol y Rhyl lifogydd. Nodwyd fod rhannau sylweddol o Bromenâd y Rhyl a'r Stryd Fawr wedi cael llifogydd yn ystod llifogydd Towyn ym 1990. Fodd bynnag, roedd y cynllun wedi'i gynnig oherwydd y risg sylweddol o lifogydd yn y dyfodol oherwydd effaith newid hinsawdd a chyflwr gwael amddiffynfeydd llifogydd presennol a fyddai'n cael effaith fawr ar gynaliadwyedd y Rhyl fel tref ar gyfer busnes a thwristiaeth. Ailadroddwyd bod Cynllun Amddiffyn Arfordir Dwyrain y Rhyl wedi'i gwblhau'n sylweddol is na'r gyllideb ac roedd hyder yn y gyllideb a'r dull o ddarparu'r prosiect.

Atebodd yr Aelod Arweiniol a swyddogion gwestiynau am amserlenni ar gyfer y cynlluniau a sicrwydd o ran cost. Nodwyd y byddai'r contractwyr yn darparu rhaglen fanwl iawn a phan fyddai dyddiad dechrau wedi'i gadarnhau, gellid rhannu trosolwg o'r rhaglen gyffredinol. Roedd llawer o waith yn cael ei wneud i adolygu ac

ailwerthuso costau cyn i'r achos busnes llawn gael ei gyflwyno hefyd. Roedd Swyddogion wedi bod yn ymgysylltu â Llywodraeth Cymru trwy gydol gwaith datblygu'r prosiect am y cynigion a'r costau posibl, ac er bod costau wedi cynyddu, roedd hyder y byddai Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r cynlluniau.

Ar ddiwedd y drafodaeth, amlygodd yr Arweinydd fod ymgysylltu cymunedol yn rhan hanfodol o'r broses i sicrhau bod pawb a oedd yn cael eu heffeithio yn cael y wybodaeth ddiweddaraf. Tynnodd sylw at y manylion cyswllt ar gyfer aelodau wardiau ar wefan y Cyngor gan annog preswylwyr i gysylltu gydag unrhyw bryderon er mwyn mynd i'r afael â nhw.

**PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn –

- (a) *cadarnhau ei fod wedi ystyried cynnwys yr Asesiadau o Effaith ar Les ar gyfer pob cynllun (sydd wedi'u hatodi fel Atodiad 3a ac Atodiad 3b yn yr adroddiad);*
- (b) *cefnogi'r cynnig i symud cynllun Amddiffyn Arfordir Canol y Rhyl yn ei flaen i'r cam adeiladu, gan ddefnyddio'r model cyllid cymorth grant a nodir gan Lywodraeth Cymru ac yn cytuno i'r cynnig gael ei gyflwyno i'r Cyngor ar gyfer penderfyniad;*
- (c) *cefnogi'r cynnig i symud cynllun Amddiffyn Arfordir Canol Prestatyn yn ei flaen i'r cam adeiladu, gan ddefnyddio'r model cyllid cymorth grant a nodir gan Lywodraeth Cymru ac yn cytuno i'r cynnig gael ei gyflwyno i'r Cyngor ar gyfer penderfyniad, ac*
- (d) *dirprwyo awdurdod i Fwrdd Prosiect Amddiffyn yr Arfordir gyflawni'r cynlluniau.*

## **6 ADOLYGU PENDERFYNIAD Y CABINET MEWN PERTHYNAS Â'R CYNLLUN PENDERFYNIADAU DIRPRWYEDIG ARFAETHEDIG AR GYFER CAFFAEL TIR (RHYDD-DDALIADOL A LESDDALIADOL) I DDIBENION DAL A STORIO CARBON A GWELLIANNAU ECOLEGOL**

Cyflwynodd y Cyngorydd Barry Mellor yr adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i gyflwyno'r cynllun newydd arfaethedig ar gyfer gwneud penderfyniadau dirprwyedig ar gyfer caffael tir ar gyfer dal a storio carbon a dibenion gwelliannau ecolegol, ar ôl ystyried argymhellion y Pwyllgor Craffu Cymunedau i ganiatáu i dir gael ei gaffael yn fwy prydlon ac effeithiol fel bod y Cyngor yn gwireddu ei ddatganiad Argyfwng Hinsawdd ac Argyfwng Ecolegol a'r targedau cysylltiedig.

Roedd penderfyniad gwreiddiol y Cabinet ym mis Chwefror 2022 i gymeradwyo'r cynllun dirprwyo arfaethedig wedi bod yn destun galw i mewn. Yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf, roedd y Cabinet wedi cytuno i ailystyried ei benderfyniad gwreiddiol gan roi ystyriaeth i argymhellion y Pwyllgor Craffu Cymunedau. Roedd yr adroddiad yn mynd i'r afael ag argymhellion y Pwyllgor Craffu a oedd yn cynnwys ceisio ymatebion i ymgynghoriadau gan sefydliadau allweddol; diwygio geiriad yn y cynllun dirprwyo arfaethedig, o ran ei fod yn berthnasol i gysylltu â chynghorwyr

lleol a Grwpiau Ardal yr Aelodau; cynnal adolygiad o adnoddau staffio yn y Gwasanaethau Cefn Gwlad ar yr adeg briodol i sicrhau digon o gapasiti i ddelio â'r dyletswyddau ychwanegol yn y dyfodol, a darparu gwybodaeth fanwl am raddio tir amaethyddol yn Sir Ddinbych.

Rhoddodd y Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd grynodedb o'r adroddiad a chadarnhau bod pob un o argymhellion y Pwyllgor Craffu wedi cael sylw. Tynnodd sylw at dargedau Di-garbon Net a Chyngor Ecolegol Gadarnhaol ar gyfer 2030 y Cyngor hefyd a'r rhesymeg dros gaffael at ddibenion dal a storio carbon a gwelliannau ecolegol. Ychwanegodd y Cynghorydd Mellor fod y Cynghorydd Huw Williams, Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Cymunedau wedi bod yn fodlon bod y materion a godwyd gan y Pwyllgor Craffu wedi cael sylw. Fodd bynnag, roedd wedi gofyn i aelodau gael gwybod am unrhyw achosion o gaffael tir pan fyddai'n digwydd, ac roedd y Cynghorydd Mellor yn ystyried bod hwn yn gais rhesymol. Diolchodd yr Arweinydd i'r Cynghorydd Huw Williams a'r Pwyllgor Craffu Cymunedau am eu gwaith a oedd wedi arwain at y canlyniad presennol. Roedd y Cynghorydd Emrys Wynne yn croesawu'r adolygiad hefyd ac amlygodd werth craffu a'i bwysigrwydd ym mhrosesau'r Cyngor.

**PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn –

- (a) *cymeradwyo cyflwyno'r cynllun penderfyniadau dirprwyedig newydd ar gyfer caffael tir (rhydd-ddaliadol a lesddaliadol) at ddibenion dal a storio carbon a gwelliannau ecolegol fel y cynigir yn Atodiad 3 yr adroddiad, ac*
- (b) *cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiadau o Effaith ar Les, fel y manylir yn Atodiad 4 yr adroddiad, fel rhan o'i ystyriaethau.*

## **7 PROSIECT YSGOL PLAS BRONDYFFRYN - ADRODDIAD YMGYNGHORI FFURFIOL AR DREFNIADAETH YSGOL**

Cyflwynodd y Cynghorydd Gill German yr adroddiad am ganfyddiadau'r ymgynghoriad ffurfiol am brosiect Ysgol Plas Brondyffryn a cheisiodd gymeradwyaeth y Cabinet i gyhoeddi hysbysiad statudol i'r Cyngor gynyddu'r capasiti o 116 i 220 yn Ysgol Plas Brondyffryn. Cyfeiriodd hefyd at ddiwygiad i argymhelliad 3.2 yr adroddiad, i gynnwys dyddiad gweithredu diwygiedig sef 28 Ebrill 2025.

Roedd y prosiect yn rhan o Raglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru (Band B) a gymeradwywyd ym mis Medi 2020. Ar hyn o bryd, roedd yr ysgol yn darparu darpariaeth arbenigol ar gyfer disgyblion ag awtistiaeth rhwng 3 a 19 oed ar draws pedwar safle yn Ninbych. Y cynnig oedd dod â phob safle at ei gilydd mewn adeilad pwrpasol mewn cae drws nesaf i Ganolfan Hamdden Dinbych ac a ddefnyddir gan Ysgol Uwchradd Dinbych ar hyn o bryd, a chynyddu capasiti'r ysgol wrth i alw am y lleoedd arbenigol hynny gynyddu. Roedd manylion yr ymatebion i'r ymgynghoriad wedi'u nodi yn yr adroddiad, ynghyd â'r adroddiad ymgynghori a'r dogfennau ategol.

Soniodd y Pennaeth Addysg a'r Prif Reolwr – Cymorth i Ysgolion fwy am y cynnig i gynyddu capasiti'r ysgol yn seiliedig ar y cynnydd a ragwelir o ran galw a materion

presennol o ran capasiti. Roedd trafodaethau wedi bod yn parhau â Llywodraeth Cymru yn ystod proses ddatblygu'r achos busnes a gwnaed llawer o waith i sicrhau bod maint yr ysgol yn gywir wrth symud ymlaen, a llwybr clir ar gyfer cynyddu niferoedd disgyblion yn raddol yn yr ysgol, a threfniadau derbyn.

Roedd y Cabinet yn croesawu'r cynnig i gynyddu capasiti'r ysgol er mwyn bodloni'r galw cynyddol am leoedd. Canolbwyntiwyd ar y prif faterion trafod a ganlyn -

- amlygodd y Cynghorydd Elen Heaton yr angen i greu rhagor o gyfleoedd i rai sy'n gadael yr ysgol sydd ag anableddau dysgu. Cadarnhawyd bod y dyluniad presennol ar gyfer yr ysgol yn cynnwys caffi cymunedol, a'r nod oedd darparu rhagor o ymgysylltiad cymunedol yn yr ysgol a chyfleoedd i ddisgyblion ag anableddau dysgu, yn enwedig mewn darpariaeth ôl-16, i ddefnyddio'r cyfleusterau newydd a datblygu sgiliau cymdeithasol a chysylltiadau â'r gymuned ehangach. Roedd ysgolion cynradd yn y sir oedd ag ardaloedd caffi eisoes a modelau eraill yn y trydydd sector oedd ag oedolion ag anghenion dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, roedd hi'n hollbwysig diogelu disgyblion, ac os na ellid gwarantu hynny, ni fyddai unrhyw ddatblygiadau.
- Mynegodd y Cynghorydd Rhys Thomas bryderon am eiriad argymhelliad 3.2 yr adroddiad a gofynnodd am eglurder am elfennau penodol yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion a sut roedd yn ymwneud â'r cynnig, yn enwedig o ran nodi lleoliad ar gyfer yr ysgol, pryderon am y broses ymgynghori ochr yn ochr â'r ymgynghoriad cyn ymgeisio ar wahân ar gyfer safle newydd arfaethedig yr ysgol, a phryderon am y safle arfaethedig ei hun. Roedd cyfarfod arbennig o Grwpiau Ardal yr Aelodau Dinbych wedi'i drefnu i drafod y broses dewis safle a phryderon yn hynny o beth. O ganlyniad, roedd yn teimlo y byddai rhinweddau wrth oedi cyhoeddi'r hysbysiad neu aileirio argymhelliad 3.2 i sicrhau eglurder o ran y broses bresennol a gwneud penderfyniadau. Nododd y Cynghorydd Gill German ei dewis am ddiwygiad er eglurder yn hytrach nag oedi, o ystyried yr amserlen a'r effaith bosibl ar ddatblygu prosiectau eraill.

Darparodd y Swyddog Monitro gyngor cyfreithiol am y pwyntiau hyn, a phwyntiau dilynol a godwyd er mwyn egluro prosesau eraill, fel a ganlyn –

- ◆ nid cynnig ar gyfer ysgol newydd oedd hwn; roedd y cynnig yn ymwneud â chynyddu capasiti ysgol bresennol, felly roedd darpariaethau'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn ymwneud â'r hysbysiad a'r ymgynghoriad o ran eu bod yn ymwneud ag addasu ysgol bresennol nid creu ysgol newydd
- ◆ o ran cyhoeddi'r hysbysiad, neu oedi cyhoeddi'r hysbysiad, roedd rhaid cyhoeddi'r hysbysiad o fewn amser penodol ar ôl yr ymgynghoriad a byddai oedi yn golygu risg bosibl o fod y tu allan i'r amserlen ar gyfer y broses
- ◆ o ran diwygiad i argymhelliad 3.2, roedd angen eglurder o ran bod 'amodol ar' yn cyfeirio at weithredu'r cynnig, ac nid bod y cynnig yn 'amodol ar' fod yr adeilad newydd yn barod, nac unrhyw ffactorau eraill. Fodd bynnag ni ellid gweithredu cynnydd o ran capasiti'r ysgol oni bai bod rhywle i ddarparu ar gyfer y capasiti uwch hwnnw. Felly, dylai aralleirio'r diwygiad ei gwneud yn glir y byddai gweithredu'r cynnig yn amodol ar ffactorau eraill ac nid cyhoeddi'r hysbysiad statudol

- ◆ roedd y gofyniad yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion i nodi safle'r ysgol yn yr hysbysiad yn ymwneud â sefydlu ysgol newydd, felly nid oedd yn berthnasol yn yr achos hwn oherwydd bod yr hysbysiad yn ymwneud â chynyddu niferoedd y disgyblion. Fodd bynnag, yn y wybodaeth ychwanegol a oedd yn cyd-fynd â'r hysbysiad, roedd yn bosibl nodi lle'r oedd safle arfaethedig yn cael ei ragweld
- ◆ roedd angen i'r hysbysiad statudol nodi'r dyddiad gweithredu arfaethedig
- ◆ o ran yr effaith ar y broses pe bai'r safle newydd arfaethedig yn methu â mynd trwy'r broses gynllunio, ni fyddai'n bosibl gweithredu'r newid oni bai bod safle priodol wedi'i nodi, neu nes i safle o'r fath gael ei nodi
- ◆ nodi'r broses gwneud penderfyniadau ar gyfer Cabinet yn dilyn cyhoeddi'r hysbysiad a ph'un a ddylid parhau â'r cynnig neu beidio yng ngoleuni unrhyw wrthwynebiadau a gafwyd; roedd prosesau eraill a oedd yn penderfynu a oedd y safle'n briodol ai peidio.
- ◆ roedd cymeradwyo'r hysbysiad o ran y cynnig trefniadaeth ysgolion yn benderfyniad gweithredol i'r Cabinet ac ni fyddai mewn unrhyw ffordd yn rhagfarnu unrhyw gais cynllunio dilynol ar gyfer y safle newydd arfaethedig, a fyddai'n benderfyniad i'r awdurdod cynllunio, ac yn broses gwneud penderfyniad ar wahân.

Ymatebodd yr Aelod Arweiniol a swyddogion i gwestiynau gan rai nad oeddent yn aelodau'r Cabinet, gan egluro y gallai oedi o ran y prosiectau sy'n ymwneud â'r rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu gael effaith ar brosiectau yn y dyfodol dan y rhaglen honno, ond na fyddent yn effeithio ar brosiectau ysgol eraill sy'n amodol ar ffrydiau ariannu gwahanol. O ran niferoedd disgyblion yn y dyfodol, nodwyd y bu gostyngiad diweddar o ran ceisiadau y tu allan i'r sir am amryw resymau ac roedd adolygiad o'r broses dderbyn a'r polisi yn cael ei gynnal i sicrhau bod yr ysgol yn cynnig y dewis gorau posibl i gynifer o ddisgyblion ag sy'n bosibl, gyda chydweithio agos ag awdurdodau lleol eraill yng Ngogledd Cymru.

Ar ddiwedd y drafodaeth, ailddatganodd y Cynghorydd Gill German ei diwygiad i argymhelliad 3.2 yr adroddiad i gynnwys dyddiad gweithredu diwygiedig, sef 28 Ebrill 2025, a dileu sôn y byddai'r adeilad newydd yn barod. Darllenodd y Cynghorydd Rhys Thomas ei awgrym am ddiwygiad am frawddeg newydd yn argymhelliad 3.2 am weithredu'r cynnig. Wrth bleidleisio –

**PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn –

- (a) *nodu canfyddiadau'r ymgynghoriad ffurfiol i gynyddu'r capasiti o 116 i 220 yn Ysgol Plas Brondyffryn;*
- (b) *cymeradwyo cyhoeddi hysbysiad statudol i Gyngor Sir Ddinbych gynyddu'r capasiti o 116 i 220 yn Ysgol Plas Brondyffryn o 28 Ebrill 2025 ymlaen. Bydd gweithredu'r cynnig yn amodol ar gytuno ar safle, derbyn caniatâd cynllunio, p'un a fydd cyllid ar gael a p'un a fydd yr adeilad newydd yn barod, ac*
- (c) *cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiadau o Effaith ar Les, fel y manylir yn Atodiad 1 yr adroddiad, fel rhan o'i ystyriaethau.*

Ar y pwynt hwn (11.45 am) cymerodd y pwyllgor egwyl am luniaeth.

## **8 SYSTEM GWRESOGI ARDAL BETWS GWERFIL GOCH**

Cyflwynodd y Cynghorydd Rhys Thomas yr adroddiad am brosiect system gwresogi ardal ar gyfer pentref Betws Gwerful Goch, gan ymgorffori darpariaeth pypiau gwres o'r ddaear (GSHP) i anheddau'r Cyngor ac anheddau sy'n eiddo preifat. Gofynnwyd am gymeradwyaeth y Cabinet i benodi contractwr i fwrw ymlaen â cham dylunio'r prosiect.

Darparwyd rhywfaint o gefndir i'r prosiect gan gynnwys y cyfle i ymestyn gwaith ôl-osod i berchnogion cartrefi preifat mewn ardaloedd oddi ar y grid/anodd eu cynhesu, a'r rhesymeg a oedd yn sail i ddewis Betws Gwerful Goch ar gyfer y cynllun. Roedd partner technegol (Kensa) wedi'i ddewis trwy fframwaith y Gynghrair Caffael Cymreig ac roedd astudiaethau dichonoldeb dechreuol yn cefnogi hyfywedd y cynllun. Roedd cyllid grant 100% wedi'i sicrhau gan Lywodraeth Cymru i gwmpasu cost y GSHP anheddau preifat yn yr ardal ar yr amod y byddai'r prosiect yn cael ei ddarparu yn 2022/23.

Byddai ymgysylltu cymunedol yn allweddol i ddarparu'r cynllun yn llwyddiannus a soniodd yr Uwch Bensaer fwy am y gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu hyd yma, a gafodd eu croesawu, ac roedd rhagor o gynlluniau i ymgysylltu â rhai na wnaethant ymateb. Rhoddodd amlinelliad o gwmpas y gwaith dylunio hefyd a gofynion ar gyfer eiddo unigol, a byddai'r cyngor yn cynnal gwaith arolwg hefyd i gynhyrchu elfen 'pasbort' y cynllun ar gyfer blynyddoedd y dyfodol.

Roedd y Cabinet yn croesawu'r prosiect arloesol a'r buddion y byddai'n eu cyflwyno i breswylwyr o ran effeithlonrwydd ynni ac arbed costau, a hefyd o ran y rhaglen newid hinsawdd gydag ynni adnewyddadwy a lleihau carbon. Roedd y prosiect yn adlewyrchu uchelgeisiau'r Cyngor a'i ddull o feddwl ymlaen ac roedd yn gyfle cyffrous i Fetws Gwerful Goch. Os byddai'r prosiect yn cael ei ddarparu'n llwyddiannus dan amgylchiadau mor anodd ac mewn lleoliad anghysbell, y syniad oedd y gellid ei ddarparu bron yn unrhyw le yn y sir, ac roedd y Cabinet yn falch o nodi'r cyfle posibl i'r prosiect peilot gael ei gyflwyno i bentrefi eraill sydd â heriau tebyg. Nodwyd hefyd y byddai modd i unrhyw breswylwyr nad oeddent wedi ymuno â'r cynllun ar y dechrau ymuno'n ddiweddarach o ystyried y byddai'r isadeiledd ynni ar waith eisoes, er y byddai angen iddynt dalu costau'r pwmp gwres. Diolchwyd i swyddogion am eu gwaith caled wrth sicrhau cyllid ar gyfer y cynllun a chefnogi'r gwaith o'i ddarparu o fewn yr amserlenni tynn a nodwyd gan Lywodraeth Cymru.

**PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn nodi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gweithgaredd ymgysylltu ac yn cymeradwyo penodi'r contractwr Kensa i fynd ati gyda cham dylunio'r prosiect. [Bydd y cam hwn yn y prosiect yn cymryd 12-16 wythnos.]

## **9 ADRODDIAD BLYNYDDOL RHEOLI'R TRYSORLYS 2021/22**

Cyflwynodd y Cynghorydd Gwyneth Ellis adroddiad yn diweddarau'r Cabinet ar berfformiad y swyddogaeth rheoli trysorlys ac sy'n dangos cydymffurfiad â



chyfyngiadau'r trysorlys a'r Dangosyddion Darbodus yn ystod 2021/22. Diben yr adroddiad oedd rhoi sicrwydd o ran gweithgareddau rheoli trysorlys y Cyngor.

Amlygodd y Pennaeth Cyllid ac Eiddo bwysigrwydd rheoli'r trysorlys, a chyfeiriodd at y cefndir economaidd a'i effaith ar weithgareddau rheoli'r trysorlys. Amlygodd y prif bwyntiau ar gyfer aelodau yn nhermau gweithgareddau benthyca a buddsoddi a chadarnhaodd eu bod yn cydymffurfio â phob dangosydd darbodus a nodwyd, gan fynd â'r aelodau drwy'r dangosyddion hynny fel y manylir yn Atodiad B gan gadarnhau cymarebau addas o ariannu costau a lefelau benthyca o fewn terfynau. Nodwyd bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn monitro'r swyddogaeth rheoli'r trysorlys a'u bod wedi derbyn yr adroddiad. Roedd sesiwn hyfforddiant Rheoli'r Trysorlys wedi'i threfnu gyda'r Ymgynghorwyr Rheoli'r Trysorlys, Arlingclose, ar gyfer 28 Hydref 2022, ac roedd pob aelod wedi cael gwahoddiad i fynychu.

Cydnabu'r Arweinydd yr adroddiad cynhwysfawr a phwysigrwydd y gweithdrefnau cadarn a oedd ar waith ar gyfer delio â'r swyddogaeth rheoli'r trysorlys a gwaith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn hynny o beth.

**PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn –

- (a) *nodi perfformiad swyddogaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor yn ystod 2021/22 a'i chydymffurfiaeth â'r Dangosyddion Darbodus gofynnol, fel yr adroddwyd yn Adroddiad Rheoli Trysorlys Blynyddol 2021/22 (Atodiad 1 yr adroddiad), ac*
- (b) *cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 2 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.*

## 10 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd Gwyneth Ellis yr adroddiad oedd yn manylu ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb.

Rhodddwyd crynodeb o sefyllfa ariannol y Cyngor fel a ganlyn -

- y gyllideb refeniw net ar gyfer 2022/23 oedd £233.693 miliwn (£216.818 miliwn yn 2021/22)
- rhagwelir y byddai gorwariant o £2.661 miliwn mewn cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol
- tynnwyd sylw at y risgiau a thybiaethau presennol yn ymwneud â chyllidebau corfforaethol a meysydd gwasanaeth unigol ynghyd ag effaith y Coronafeirws a chwyddiant
- manylion am arbedion gwasanaethau a chynnydd mewn ffioedd a thaliadau (£0.754 miliwn); ni ofynnwyd am arbedion gan Wasanaethau Cymorth Cymunedol nac Ysgolion
- rhodddwyd diweddariad cyffredinol ar y Cyfrif Refeniw Tai, Rheoli'r Trysorlys a'r Cynllun Cyfalaf a chafwyd diweddariad ar brosiectau mawr.

Gofynnwyd am gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer cynlluniau i wario grant cyfalaf ysgolion hefyd er mwyn gwella awyriad, cefnogi datgarboneiddio a lleihau ôl-groniad gwaith cynnal a chadw.

Amlygodd y Pennaeth Cyllid ac Eiddo fod y gorwariant uwch o'r mis blaenorol yn ymwneud yn bennaf â'r Gwasanaethau Plant a Gofal Cymdeithasol i Oedolion a oedd yn wasanaethau a gaiff eu harwain gan alw ac a oedd yn anodd eu rhagweld. Er bod y gorwariant ar hyn o bryd ar lefel y gellid ei hariannu gyda chronfeydd wrth gefn lefel sylfaen, roedd y gorwariant yn cynyddu, a oedd yn dal i fod yn risg i'r Cyngor. Byddai'r materion ailadroddus hynny'n cael eu hystyried fel rhan o'r broses o osod y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Cyfeiriwyd hefyd at amrywiaethau eraill o fewn cyllidebau gwasanaeth a risgiau i'w nodi wrth symud ymlaen o ran nifer o gontractau ysgolion, gan gynnwys cludiant ysgol, nad oedd wedi'i gymeradwyo eto, ac roedd yn debygol o gael ei adrodd yn y cyfarfod nesaf. Roedd y setliad cyflog ar gyfer athrawon a staff nad oeddent yn athrawon yn dal i fod yn risg, gyda rhagdybiaethau'n seiliedig ar y cynnig tâl presennol y gellid ei fforddio yn y flwyddyn – byddai unrhyw gynnydd yn cynyddu'r gorwariant presennol ymhellach. Yn olaf, cyfeiriwyd at yr achos busnes oedd gerbron Cabinet i'w gymeradwyo o ran gwario'r grant cyfalaf ysgolion a gafwyd gan Lywodraeth Cymru. Fel Aelod Arweiniol, soniodd y Cynghorydd Gill German fwy am y gwariant arfaethedig i wella awyriad mewn ysgolion a'r flaenoriaeth ar gyfer cadw ysgolion ar agor lle bynnag bo'n bosibl, a rhoi sylw i'r ôl-groniad gwaith cynnal a chadw mewn ysgolion ac allyriadau carbon, ac ychwanegodd ei chefnogaeth i'r achos busnes.

Gan ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Barry Mellor, cadarnhaodd y pennaeth Cyllid ac Eiddo fod Llywodraeth Cymru wedi datblygu pecyn ariannu a fyddai'n debygol o gwmpasu'r costau ychwanegol i wasanaethau sy'n cynorthwyo ffoaduriaid o Wcráin.

**PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn –

- (a) *nodir cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2022/23 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb; ac*
- (b) *cymeradwyo'r cynlluniau i wario grant cyfalaf Ysgolion (£1.799 miliwn) i wella awyru, cefnogi datgarboneiddio a lleihau'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw mewn ysgolion, fel y nodir yn adran 6.9 ac Atodiad 5 yr adroddiad.*

## 11 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet i'w hystyried a nododd yr aelodau fod y ddwy eitem ganlynol wedi'u hychwanegu ar gyfer mis Tachwedd –

- Polisi Gosod Tai Lleol
- Cynllun Datblygu Lleol Newydd – Cytundeb Cyflawni diwygiedig drafft

**PENDERFYNWYD** nodi rhaglen gwaith i'r dyfodol y Cabinet.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.30 pm.